CYLCHLYTHYR RHIENI: EBRILL 28, 2021

DIWRNOD HYFFORDDIANT STAFF : Bydd Dydd Gwener, Gorffennaf 2il yn ddiwrnod hyfforddiant staff. (wedi newid o ddydd Gwener, Mehefin 18fed – nawr yn ddiwrnod ysgol arferol)

GADAEL YR YSGOL YN YSTOD Y DYDD: Ar hyn o bryd mae asesiad risg yr ysgol yn golygu os yw disgybl yn gadael yr ysgol yn ystod y dydd, er enghraifft ar gyfer apwyntiad meddygol neu ddeintyddol, ni allant ddychwelyd i'r ysgol y diwrnod hwnnw. Gallant ddychwelyd y diwrnod canlynol.

NOSON RIENI BLWYDDYN 8: Bydd Noson Rieni Blwyddyn 8 yn cael ei chynnal ar Fehefin y 15fed (3:30pm-6:00pm) drwy system gyfarfod fideo Schoolcloud – mwy o fanylion i ddilyn.

GWISG YSGOL: Rydym wedi bod yn hyblyg gyda gwisg ysgol dros y 3 wythnos ar ôl ail agor. Gofynnwn am eich cefnogaeth i geisio dychwelyd at y safonau uchel o wisg ysgol o hyn ymlaen.

CANLYNIADAU TGAU, UG ac UWCH: Bydd diwrnod canlyniadau swyddogol UG/U ar Ddydd Mawrth y 10fed o Awst a chanlyniadau TGAU ar Ddydd Iau y 12fed o Awst. Bydd diwrnod canlyniadau dros dro mewnol yn ystod mis Mehefin- dyddiad i'w gadarnhau.

ADRODIADAU CYNNYDD: Bydd Blynyddoedd 7-10 yn derbyn adroddiad llawn ysgrifenedig cyn diwedd y flwyddyn yn ogystal ag adroddiad tracio interim cyn hynny. Bydd Blynyddoedd 11-13 yn cael adroddiad tracio hanner ffordd drwy'r cyfnod asesu yn ystod wythnos gyntaf mis Mai.

MYNEDIAD I'R CHWECHED AR GYFER MEDI 2021: Mae manylion ynghylch Mynediad i'r Chweched Dosbarth ar gyfer Medi 2021 ar gael ar wefan yr ysgol drwy'r linc isod

http://ysgoldavidhughes.org/chweched-dosbarth/chweched-dosbarth.html

Gallwch hefyd ddilyn cyfrif Instagram y Chweched sef @davidhughes6ed

DŴR: Oherwydd y cyfyngiadau presennol nid yw'r peiriannau dŵr ymlaen. Wrth i'r tywydd gynhesu fe fyddai'n syniad da i ddisgyblion ddod a photel ddŵr i'r ysgol os yn bosib.

GWEITHGAREDDAU DIWEDD TYMOR : Wrth i rai cyfyngiadau gael eu llacio yn genedlaethol byddwn yn adolygu ein gweithdrefnau ac yn ystyried pa rai o'r gweithgareddau diwedd blwyddyn arferol fydd yn bosib eleni.

Diolchwn i chi gyd fel rhieni am eich cefnogaeth arbennig dros yr wythnosau a misoedd diwethaf.